**Disgrifiad Swydd :** Cydlynnydd Gwaith Allanol ac Ymrwymo Rhanbarthol (Canolbarth a Gogledd Cymru)

**Adrodd i :** Arweinydd Tim Gwaith Allanol ac Ymrwymo.

**Pwrpas:** I alluogi pobl sydd wedi eu heffeithio gyda anaf i linyn eu cefn i gyrraedd eu potensial drwy arwain perthnasoedd Back Up gyda chanolfannau anafiadau llinyn cefn, ysbytai a lleoliadau iechyd, partneriaid a chymdeithasau ble mae pobl ag anafiadau i linyn eu cefn yn rhyngweithio. Bydd y rol yn cydlynnu ein holl weithgareddau yn y rhanbarth, datblygu a rheoli'r arfaeth o fobl sydd angen cymorth Back Up, recriwtio gwirfoddolwyr a gweithgareddau sy'n cefnogi cynaliadwyaeth Back Up a'r gwasanaethau.

**Cyfrifoldebau**

Gwaith allanol, sgiliau cadair olwyn ac ymrwymo pellach

- Annog yr ystod fwyaf posib o fobl gydag anaf llinyn cefn i ymrwymo i gysylltiad pellach gyda Back Up, drwy gymdeithasau a/neu gynnal sesiynnau hyfforddi sgiliau cadair olwyn a chyflwyniadau i cleifion a'u teuluoedd yn y canolfannau yn eu hardal, ysbytai cyffredinol a chyda phartneriaid neu leoliadau fel y dymunir.
- Cydlynnu, cefnogi a rheoli hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n cefnogi darparu'r sesiynnau ac yn siarad gyda'r cleifion a'u teuluoedd.
- Arwain, cynnal a datblygu perthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol gydag ystod o unigolion profesiynnol meddygol a chynrychiolwyr elusennol arall e.e. drwy gyflwyniadau, galwadau, cyfarfodydd, i sicrhau fod pobl yn derbyn y gefnogaeth o'r radd flaenaf.

Cyswllt gweithredol gyda phobl ag anaf llinyn cefn.

- Cynnal a chefnogi perthnasoedd gyda nifer fawr o fobl wedi effeithio gydag anaf llinyn cefn (oedolion, plant a phobl ifanc a'u rhieni) drwy gyswllt gweithredol rheolaidd. Gall hyn fod wyneb yn wyneb yn y ganolfan anafiadau, lleoliadau eraill neu drwy ddigwyddiadau, galwad ffon neu gysylltiadau eraill.
- Archwilio eu teimladau, dymuniadau a'u anghenion a darparu cefnogaeth unigol i'w cefnogi er mwyn iddynt deimlo'n: gefnogol, mynediad addas at wasanaethau Back Up ac o fannau eraill drwy gyfeiriadau gweithredol, a dod yn fwy ymwybodol o'r posibiliadau mewn bywyd ar ol anaf i'r llinyn cefn.

Rhwydweithio, partneriaethau a chynaladwyedd

- Datblygu a chynnal map o'r ardaloedd o fewn y rhanbarth ble ddaw pobl ag anafiadau mewn cysylltiad.
- Datblygu partneriaeth, llwybrau cyfeirio a prosessau dangos i ddatblygu ymestyniad Back Up.
- Datblygu a rheoli rhwydwaith o wirfoddolwyr cymunedol i gefnogi gwaith ehangach a chynaladwyedd Back Up drwy godi arian a gweithgareddau tebyg.
- Arwain ar ddigwyddiadau codi arian brwdfrydig; gweithio tuag at targedau incwm sy'n cefnogi cynaladwyedd parhaus.

Dyletswyddau eraill a chyfrifoldebau

- Cynnal cofnodion cywir ar y bas data.
- Gweithio fel tim, cysylltu ag eraill i sicrhau eich bod yn rhoi ac yn derbyn y gefnogaeth o’r radd flaenaf.
- Rhaeadru’r problemau sy’n effeithio’r bobl rydym yn eu cefnogi, unrhyw ddatblygiadau yn y canolfannau anafiadau, ysbytai cyffredinol a lleoliadau eraill yn ol i Back Up.
- Mewnbynnu i gynlluniau’r tim ac unrhyw weithgareddau.
- Rheoli cyllideb gweithgareddau eich hardal.
- Helpu i recriwtio gwirfoddolwyr newydd fel bo’r angen i sicrhau tim amrywiaethol i gynrychioli Back Up.
- Dyletswyddau eraill fel bo’r angen gan yr Arweinydd Tim Gwaith Allanol ac Ymrymo.

**GOFYNION – Hanfodol**

- Person sydd wedi'i anafu i fadruddyn y cefn
- Profiad o weithio i gefnogi pobl bregus i gyrraedd eu hamcanion/symud ymlaen mewn bywyd.
- Sgiliau rhyngbersonol gwych a’r gallu i uniaethu gyda phobl ar bob lefel yn fewnol ac yn allanol.
- Sgiliau ysgrifennu a llafar gwych, yn y Gymraeg a’r Saesneg.
- Safon uchel o TCGh gan gynnwys profiad o ddefnyddio bas data a MS Office.
- Hunan-ddechreuol; trefnus iawn ac yn gallu trefnu llwyth gwaith unigol.

- Cynnig agwedd greadigol a gweithredol tuag at bob agwedd o'r gwaith gydag agwedd o "Gallaf wneud" i gyd-fynd gyda gwerthoedd yr elusen.
- Ymrwymo i gyflawni gwasanaeth o'r lefel uchaf.
- Parch tuag at gyfrinachedd.
- Eich bod yn addas i weithio yn ddiogel gyda phlant a phobl bregus.
- Tueddiad cryf i weithio fel tim gyda gweledigaeth hyblyg ac addasadwy ar gyfer gweithio ar draws yr elusen.
- Parch tuag at eraill; gallu gweithio mewn modd sy'n parchu amrywiaetholdeb ac yn parchu cyfartaledd.
- Gwrandawr da, twymgalon, empathi a chydymdeimlad tuag at bawb. Ddim yn rhagfarnllyd ac yn gallu ffocysu ar yr unigolyn a'i anghenion.
- Gallu ac yn fodlon teithio a gweithio ambell noson ac ar y penwythnosau gan gynnwys aros dros nos ar adegau.
- TGAU Mathemateg a Saesneg A-C neu'n gyfwerth.

**GOFYNION – dymunol**

- Profiad o weithio gyda a chefnogi gwirfoddolwyr.
- Profiad o weithio gyda phobl mewn trawma.
- Sgiliau cyflwyno a'r gallu i reoli grwp.
- Gweledigaeth gweithredol i gefnogi anghenion eich hun, iechyd a lles.
- Dealltwriaeth o anghenion pobl sy'n cyfarwyddo gyda bywyd yn dilyn anaf i linyn eu cefn.